# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 28 MEDI 2022

**Yn bresennol:**

**Y CYNGHORWYR:** Elin Hywel (Cadeirydd)
Kim Jones (Is-gadeirydd)

Stephen Churchman, Robert Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Gwilym Jones, Linda Morgan, Edgar Owen, Llio Elenid Owen, Arwyn Herald Roberts, Beca Roberts, Peter Thomas, Rob Triggs a Gruffydd Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaeth Democratiaeth) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:**
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor) a Sandra Lynne Thomas (Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**
Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd), Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) a Gareth Roberts (Peiriannydd Ardal Dwyfor).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd) a Rhian Wyn Williams (Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Annwen Hughes, Elfed Powell Roberts a Rhys Tudur.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol yn eitem 7 ar y rhaglen gan y Cynghorydd Dafydd Meurig oherwydd ei fod yn Gadeirydd Partneriaeth Ogwen. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2022 fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arweinydd y Cyngor a Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn a tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Esboniwyd fod y Bwrdd wedi ei sefydlu o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a bod y bwrdd yn gorff statudol ar y cyd gydag Ynys Môn.

- Eglurwyd fod y gwasanaethau Iechyd a thân, colegau, Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a chymdeithasau tai yn cael eu cynrychioli ar y bwrdd. Maent yn adnabod meysydd pwysig a nodi mannau ble gall cydweithio mewn partneriaeth gael mwy o effaith ar drigolion.

- Adroddwyd bod Asesiadau Llesiant yn cael eu cwblhau pob 5 mlynedd dros 13 ardal wahanol. Nodwyd bod Gwynedd wedi ei rannu yn 8 ardal ac Ynys Môn wedi ei rannu i 5 ardal. Eglurwyd bod y rhaniad yma wedi cael ei greu fel bod y materion pwysicaf ym mhob ardal yn cael eu cyfarch, gan fod y materion hynny yn amrywio o ardal i ardal.

- Cadarnhawyd fod Cynllun Llesiant yn cael ei baratoi ar gyfer y cyfnod 2023-2028 yn dilyn yr Asesiadau Llesiant presennol.

- Cyfeiriwyd at dri is-grŵp gweithredol sy'n delio â rhai o agweddau gweithredu'r Bwrdd a nodwyd eu prif blaenoriaethau:

  - Is-grŵp Newid Hinsawdd: yn canolbwyntio ar ddatblygu dulliau atal llifogydd.
  - Is-grŵp yr Iaith Gymraeg: yn canolbwyntio ar wella a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Cynhaliwyd cynllun peilot er mwyn cydweithio â sefydliadau cyhoeddus i weld pam bod pobl ddim yn defnyddio'r Gymraeg mewn derbynfeydd a sut gynyddu defnydd o'r iaith.
  - Is-grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig: yn llywodraethu sefydlu trefn cydweithio yn y sector, gan gynnwys y Timau Adnoddau Cymunedol.

- Sicrhawyd y byddai drafft o'r Cynllun Llesiant (2023-2028) yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

Byddai mewnbwn y pwyllgor hwn yn ddefnyddiol i'r Bwrdd wrth lunio'r Cynllun Llesiant.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, esboniodd Arweinydd y Cyngor bod adroddiad yn mynd i'r Cabinet yn fuan ar sut roedd y Bwrdd yn mynd ati i gasglu gwybodaeth. Ymhelaethodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn bod drafft y Cynllun Llesiant (2023-2028) ar ei ffordd i'r pwyllgor craffu hwn mor fuan â phosibl.

Holwyd os oedd modd gweld cynllun gweithredu'r is-grŵp newid hinsawdd yn ogystal â derbyn cadarnhad o aelodaeth yr is-grŵp er mwyn edrych ar ei effeithiolrwydd a chynllun amser.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, eglurodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn, bod yr is-grŵp yn cael ei arwain gan Gyfoeth Naturiol Cymru a sicrhawyd yr aelodau fod holl aelodau'r is-grŵp yn cymryd perchnogaeth ohono. Cydnabuwyd bod amcanion yr is-grŵp wedi bod yn rhy eang yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf ac o'r herwydd nid oedd wedi bod mor llwyddiannus a obeithiwyd. Er hyn, ymhelaethodd Arweinydd y Cyngor bod atal llifogydd yn brif ffocws yn ddiweddar ac yn y Cynllun Llesiant newydd. Nododd y gwerthfawrogir derbyn sylwadau neu syniadau gan yr aelodau.

Cwestiynwyd sut roedd y Bwrdd yn ymateb os nad ydi prosiectau yn datblygu fel y gobeithiwyd.

- Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd Arweinydd y Cyngor bod y Bwrdd wedi cael trafferthion gyda gweithio mewn partneriaeth yn y gorffennol. Er mwyn i'r Bwrdd fod yn llwyddiannus roedd angen i bawb gydweithio ac o'r herwydd byddai'r Bwrdd yn amlygu yn union pwy fyddai'n gweithredu ar ba brosiectau a sut bwriedir eu gwireddu yn effeithiol. Ymhelaethodd fod y Bwrdd yn adrodd i gyrff eraill ac mae hynny'n creu atebolrwydd ac yn annog partneriaid i weithredu ar amser.

Gofynnwyd sut roedd y Bwrdd yn ymdrin gyda tlodi. Nodwyd bod cyfraddau tlodi wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, a bod angen adnoddau i daclo'r broblem.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd Arweinydd y Cyngor ei fod yn mater pwysig iawn a bod y Cyngor yn datblygu cynlluniau i helpu daclo'r broblem. Er hyn, mae'n fater cymhleth gan fod Llywodraeth San Steffan yn gyfrifol am wariant cyhoeddus a budd-daliadau sy'n rhoi cyfyngiadau ar yr hyn ellir ei gyflawni. Sicrhaodd Arweinydd y Cyngor bod y Bwrdd yn bod mor weithredol a phosibl i ddatrys y broblem o dlodi yn ogystal â materion problemus eraill megis cyfraddau gordewdra ymysg plant.

Nodwyd fod rhai o'r prosiectau, megis Hwb Cymunedol Dolfeurig, Dolgellau yn cymryd peth amser i'w datblygu a holwyd am amserlen ar gyfer y prosiect. Holwyd hefyd os oedd yr adroddiad yn gywir i ddweud fod y gwaith wedi cychwyn pan nad oedd datblygiadau amlwg i'w weld ar y safle.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, eglurodd Arweinydd y Cyngor bod prosiect Hwb Cymunedol Dolfeurig yn brosiect Cyngor Gwynedd yn hytrach na phrosiect y Bwrdd. I ymhelaethu ar y prosiect penodol hwn, nodwyd fod pwysau mawr i'r prosiect gael ei gwblhau oherwydd cyflwr yr adeilad, ond bod problemau wedi bod gyda'r ceisiadau cynllunio yn y gorffennol. Gan mai prosiect Cyngor Gwynedd ydyw, byddai'r adrannau perthnasol yn edrych i mewn i'r prosiect yma mor fuan â phosibl. Ymddiheurwyd bod yr adroddiad yn ymddangos fel bod y gwaith wedi dechrau yn barod.

**PENDERFYNWYD**
**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

## 6. BINIAU HALEN – DIWEDDARIAD GWASANAETH CYNNAL GAEAF

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd a Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Eglurodd yr Aelod Cabinet fod y Cyngor wedi cysylltu â chynghorau tref a chymuned yn y gorffennol er mwyn eu hysbysu na fydd biniau halen yn cael eu llenwi gan y

Cyngor mwyach, ac mai eu cyfrifoldeb hwy byddai eu ariannu. Yn anffodus, doedd cynghorau tref a chymuned ddim yn gallu ymdopi â'r costau gan achosi i'r Cyngor dderbyn nifer o alwadau ar ffyrdd peryglus. Oherwydd hyn, roedd yr adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol wedi ail ymweld a'r sefyllfa.

- Datganwyd fod tua 600 o finiau halen wedi eu lleoli ar draws y Sir a bod y Gwasanaeth yn y broses o'u hail llenwi. Byddai'r adran yn eu monitro yn rheolaidd dros y gaeaf er mwyn eu llenwi pan fu angen.

- Esboniwyd bod lleoliadau'r biniau halen yn ogystal a'r ffyrdd sy'n cael eu graeanu gan y Cyngor yn mynd i ymddangos ar Fap Gwynedd er mwyn i drigolion ac Aelodau eu gweld.

- Nododd Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol bod gwaith yn cael ei wneud i rifo'r biniau halen. Byddai rhif unigryw'r bin halen yn ei gwneud yn haws i aelodau a chynghorau tref a chymuned adrodd gan gynorthwyo'r gweithwyr i ddatrys unrhyw broblem yn gynt.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

Canmolwyd yr adran am dderbyn fod trafferthion wedi codi yn y gorffennol ynglŷn â biniau halen, a clodforwyd y syniad o rifo'r biniau a nodi eu lleoliad ar Map Gwynedd.

Holwyd lle'r oedd y cyllid i ail gyflwyno'r gwasanaeth hwn yn deillio.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, nododdy Pennaeth Adran bod y cyllid wedi cronni ers i gynghorau tref a chymuned gymryd drosodd y gwasanaeth. Roedd y gost o ail-gyflwyno'r gwasanaeth yn gymharol debyg ac felly nid oedd angen chwilio am gyllid o unman arall.

Gofynnwyd os oedd lleoliad y biniau halen ar Fap Gwynedd yn barod ac os oedd gan y cyhoedd mynediad at y cyfleuster hwn.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd y Pennaeth Adran nad oedd y biniau halen i'w gweld ar Fap Gwynedd ar hyn o bryd ond roedd y broses o'u ychwanegu wedi cychwyn. Unwaith byddai'r broses yma wedi ei gwblhau, gall drigolion Gwynedd eu gweld drwy wefan y Cyngor. Hysbysir aelodau'r Cyngor yn dilyn cwblhau'r gwaith er eu galluogi i rannu'r wybodaeth gyda trigolion eu ward.

Datganwyd pryder bod y Gwasanaeth Cynnal Gaeaf yn cychwyn o 01.10.2022 ymlaen gan nad oedd yn rhoi digon o amser i edrych ar gyflwr y biniau halen a'u disodli pe bai angen.

- Mewn ymateb i'r datganiad hwn, nododd y Pennaeth bod yr adran yn gweithio yn agos gyda'r Peiriannydd Ardal ac yn hyderus y byddai'r biniau halen mewn cyflwr da erbyn pryd y bydd eu hangen. Cadarnhawyd er bod y y gwasanaeth yn cychwyn o 01.10.2022, nad oedd y gwasanaeth graeanu yn cychwyn nes yr ail wythnos ym mis Tachwedd fel rheol.

Tynnwyd sylw ei bod yn ymddangos o'r adroddiad bod mwy o finiau halen yn ardal Arfon o'i gymharu ag ardaloedd eraill y Sir a holwyd os oedd rheswm am hyn ac am y broses ynghlwm a pennu dyraniad biniau mewn ardaloedd.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, eglurodd y Pennaeth Adran nad oedd yna unrhyw reswm penodol pam fod mwy o finiau halen yn ardal Arfon. Nododd eu bod yn cael eu dosbarthu yn ôl yr angen a bod asesiad parhaus yn cael ei gynnal.

**PENDERFYNWYD**
**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

## 7. DIWEDDARIAD – DATBLYGIADAU YN Y MAES CLUDIANT CYHOEDDUS

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, Pennaeth Adran Amgylchedd a Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd. Tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Esboniodd yr Aelod Cabinet Amgylchedd fod pwerau i lywodraethu cludiant cyhoeddus wedi symud o afael cwmnïau preifat i'r Llywodraeth ers 2017.

- Datganwyd fod yr adran wedi bod yn llwyddiannus iawn yn y misoedd diwethaf i ddiwygio amserlen y gwasanaeth SHERPA yn ardal Llanberis. Roedd yr incwm a gynilwyd dros yr haf yn cael ei sybsideiddio ar gyfer gweddill y flwyddyn. Golyga hyn fod yr arian yn cael ei wario i gynorthwyo trigolion yr ardal yn ogystal ag ymwelwyr tymhorol.

- Gwahoddwyd ceisiadau am unrhyw adroddiad manwl am unrhyw agwedd o waith yr adran.

- Adroddodd Pennaeth Adran Amgylchedd bod cludiant ysgolion ar gyfer yr adran addysg yn flaenoriaeth fawr. Nid oedd y Cyngor eisiau bod yn ddibynnol ar gwmnïau mawr i weithredu gwasanaethau o'r fath.

- Eglurwyd er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth oraf yn cael ei ddarparu i bobl Gwynedd, bod yr adran yn cydweithio gyda'r Llywodraeth. Nodwyd bod swyddogaethau'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn rhoi gofyniad statudol ar y Cyd-Bwyllgor i gynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol erbyn Gorffennaf 2023 a datblygu cynlluniau newydd pob 5 mlynedd wedi hynny.

- Esboniwyd fod cyd-weithio gyda TrawsCymru yn effeithiol iawn gan alluogi gweithredu gwasanaeth a oedd yn ymweld â sawl ardal wledig er mwyn cyrraedd anghenion trigolion lleol.

- Cydnabuwyd fod y gwasanaeth cludiant wedi gorwario £300,000.00 eleni a nodwyd fod yr adran yn ymwybodol iawn o'r angen i sicrhau fod costau'r gyllideb yn cael ei lynu ato yn y dyfodol.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

Holwyd os oedd cynlluniau i ail-gyflwyno gwasanaeth bws 10yh fel roedd yr angen yn codi mewn ardaloedd gwledig, gan fod pris y gwasanaeth yn rhatach i ddefnyddwyr na dulliau eraill o deithio megis archebu tacsi.

- Mewn ymateb i'r ymholiad hwn, nododd Pennaeth Adran Amgylchedd bod diffyg gyrwyr yn her fawr i'w oresgyn. Os byddai sefyllfa niferoedd gyrwyr yn gwella yn y dyfodol, gobeithir y byddai mwy o'r gwasanaethau hwyr yma yn gallu rhedeg

unwaith eto gan fod gwerth cymdeithasol i'r teithiau Eglurodd oherwydd y sefyllfa bresennol roedd rhaid i gwmnïau flaenoriaethu adnoddau.

Cwestiynwyd os oedd cydweithio yn digwydd rhwng adrannau'r Cyngor er mwyn hyrwyddo'r swyddi hyn sydd ar gael gan y cwmnïau bysiau.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd y Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd bod hyn yn digwydd. Yn ogystal, roedd gan Lywodraeth Cymru syniadau ar sut i ddenu mwy o yrwyr bysiau. Er hyn , yn anffodus, roedd llawer o weithwyr hŷn wedi ymddeol ers y cyfnodau clo ac yn anodd sbarduno diddordeb ym mhobl ifanc i fod yn yrwyr bysiau.

Cydnabuwyd fod TrawsCymru yn ymweld a mwy o ardaloedd gwledig nad oedd yn derbyn gwasanaethau bysiau yn rheolaidd yn y gorffennol, ond bod rhai ardaloedd yn parhau i golli allan o'r llwybr teithio presennol. Holwyd os oes modd newid y llwybrau hyn. Nodwyd y byddai'n fuddiol i'r Adran ofyn am farn aelodau ynghyd â cynghorau tref a chymuned o ran gwelliannau.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, datganodd Pennaeth Adran Amgylchedd bod yr adran yn ymwybodol iawn bod y gwasanaeth bws mewn rhai ardaloedd ddim yn ddigonol. Sicrhaodd bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn ymweld â gwahanol ardaloedd er mwyn deall faint o angen sydd yno am wasanaeth bws a sut i newid y llwybrau teithio yn effeithiol i gyrraedd anghenion.

Cyfeiriwyd at gostau  gweithredu'r gwasanaeth yma, a holwyd os byddai bysiau trydan yn ddefnyddiol yn y dyfodol er mwyn rheoli'r sefyllfa ariannol.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, rhannodd Pennaeth Adran Amgylchedd bod isadeiledd ar gyfer gwasanaeth T22 yn cael ei osod ym Mhorthmadog ar hyn o bryd. Rhagwelwyd y byddai cyflenwad trydan yn cael ei gysylltu ar y safle ym mis Tachwedd a byddai modd cynnal a hybu gwasanaeth carbon isel i drigolion yr ardal yn dilyn hynny. Nid oedd amserleny gwasanaeth yma ar gael ar hyn o bryd gan fod angen amser i ystyried faint o hir y cymerir i'r bysiau i wefru'n llawn. Roedd yr adran yn ffyddiog byddai'r cyflenwad trydan yn cael ei gysylltu yn unol â'r amserlen a ragwelwyd.

Yn dilyn llwyddiant yr adran i newid amserlenni bysiau yn ddiweddar, holwyd os oedd cynlluniau i greu amserlenni electronig yn y dyfodol.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd Pennaeth Adran Amgylchedd bod amserlenni byw wedi bod yn cael eu defnyddio yn y gorffennol ond roeddent yn anodd i'w rheoli. Gan nad oedden nhw yn ofyniad statudol, penderfynwyd terfynnu y gwasanaeth hwnnw. Er hyn, TrawsCymru yn gosod byrddau electronig er mwyn hysbysu teithwyr o amser y bws nesaf. Nid oedd rhain yn hysbysu os oedd y bws yn hwyr. Gobeithir peilota amserlenni electronig yn y dyfodol er mwyn gweld sut byddai'r amserlenni electronig byw yn gweithio o dan y system newydd.

Cyfeiriwyd at y Gwasanaeth Sherpa, holwyd os oedd bwriad i wella cysylltiadau mewn ardaloedd cyfagos.

- Mewn ymateb, nododd y Pennaeth pe byddai galw yr edrychir ar wella'r rhwydwaith gyda teithiau yn cysylltu â'r Sherpa.

Holwyd o ran cyrraedd anghenion holl ardaloedd gwledig, holwyd os byddai modd cynnig gwasanaeth hyblyg megis bws fflecsi neu dacsi er mwyn i bobl allu cyrraedd ardaloedd oedd ar llwybr taith bysiau gwasanaeth.

- Mewn ymateb i'r ymholiad hwn, cydnabuwyd ei fod yn anodd i'r bysiau basio pob aelwyd ym mhob ardal. Nodwyd bod gwasanaethau fel y bws fflecsi wedi bod yn effeithiol iawn yn y gorffennol. Byddai gwasanaeth o'r fath yn cyflawni'r bwriad o'r gwasanaeth fflecsi er mwyn iddo fod yn gost effeithiol i drigolion ac yn ateb problemau llwybrau teithio.

Nododd aelod eu bod wedi defnyddio darpariaeth 'Bwcabws' yn ardal cyngor arall a'i bod wedi cael profiad da. Ychwanegodd y byddai'n croesawu darpariaeth bws ar alw yng Ngwynedd.

- Mewn ymateb, nododd y Pennaeth bod bws ar alw yn ffordd cost effeithiol i gyfarch anghenion teithwyr.

Gyda pobl hŷn a phobl anabl yn dibynnu'n fawr ar y gwasanaeth cludiant, datganwyd pryder yn nhoriadau yn y gwasanaethau rhwng Bangor a Wrecsam gan fod llawer o bobl yn dibynnu ar y gwasanaeth hwn ar gyfer ymweliadau ysbytai.

- Mewn ymateb i'r ymholiad, datganodd Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd eu bod yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd y gwasanaethau hyn. Nododd bod gwasanaethau T2 a T3 wedi cael eu diwygio er mwyn sicrhau nad oedd trigolion yn colli cysylltiadau rhwng gwasanaethau.

Mewn ymateb i gais gan aelod, nododd y Pennaeth y byddai'n rhannu'r adroddiad a luniwyd gan Prifysgol Bangor yng nghyswllt gwerth cymdeithasol siwrneiau gyda aelodau'r Pwyllgor.

Holwyd sut gellir gwarchod cwmnïau bysiau bychan lleol pan mae cwmnïau mawr yn brwydro yn eu erbyn i gael contractau cludiant gan y Cyngor yng nghyd-destun y newidiadau yn deillio o bapur gwyn y Llywodraeth

- Mewn ymateb i'r ymholiad, eglurodd y Pennaeth Adran bod y broses rhyddfreinio yn fater a oedd yn peri gofid ar yr olwg gyntaf. Nododd bod yr adran wedi derbyn cadarnhad gan y Llywodraeth bod cwmnïau bychan yn bwysig i'r farchnad. Eglurodd bod cwmnïau lleol yn gallu darparu gwasanaethau na all gwmnïau mwy eu darparu. Roedd yn bwysig sicrhau gwerth am arian gan roi chwarae teg i gwmnïau bach. Cadarnhaodd y rhoddir ystyriaeth i'r ddarpariaeth wledig.

**PENDERFYNWYD**
**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

**8. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2022/23**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Craffu a thynnwyd sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Cadarnhawyd yr eitemau a flaenoriaethwyd ar gyfer pwyllgorau'r flwyddyn yn y gweithdy blynyddol ar 06.07.2022 a nodwyd bod dwy eitem ar ôl i'w amserlennu ar gyfer y flwyddyn, sef 'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur' a 'Chynllun Gwella Hawliau Tramwy'.

- Eglurwyd bod adroddiad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi ei amserlennu i'w drafod yn y Cabinet ar 22.11.2022 ac felly byddai'n amserol i drafod y mater hwn yng nghyfarfod 27.10.2022 o'r pwyllgor hwn. Cadarnhawyd y byddai angen cadarnhau hyn gyda'r adran berthnasol er mwyn sicrhau ei fod yn bosibl iddynt gynhyrchu adroddiad cynhwysfawr o fewn y cyfyngiadau amser hyn.

Mewn ymateb i ymholiad yng nghyswllt amserlennu'r eitem 'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur'. Nodwyd y ceir trafodaeth yng nghyfarfod anffurfiol y pwyllgor, ble byddai adborth yn cael ei rannu o gyfarfod y Bwrdd Hinsawdd a Natur.

**PENDERFYNWYD**
**Mabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2022/23.**

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:30yb a gorffennodd am 12:35yp

CADEIRYDD